Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Canlyniadau Holiaduron Rhieni / Gwarchodwyr – Haf 2018

| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Heb gytuno neu anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn yn mwynhau dod i'r ysgol. | 74% | 23% | 2% | 1% | 1% |
| Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. | 74% | 24% | 2% | | |
| Mae'r ysgol yn deall ac yn ymateb i anghenion fy mhlentyn. | 69% | 28% | 2% | 1% | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei addysgu yn dda yn yr ysgol. | 73% | 26% | 1% | 1% | |
| Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. | 69% | 24% | 4% | 2% | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i weithio yn ddyfal ac i roi o'i orau glas yn yr ysgol. | 74% | 23% | 3% | | |
| Mae fy mhlentyn yn derbyn nifer addas o ddarnau gwaith cartref am ei oedran. | 53% | 33% | 8% | 6% | |
| Mae fy mhlentyn yn mwynhau ystod symbylol o weithgareddau trawsgwricwlaidd. | 64% | 24% | 12% | | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol am faterion yn ymwneud a chynnydd fy mhlentyn. | 63% | 28% | 4% | 4% | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol ar sut i gefnogi addysg fy mhlentyn. | 57% | 31% | 7% | 4% | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol am ddigwyddiadau a gweithgareddau ysgol. | 79% | 20% | 1% | | |
| Mae'r ysgol yn awyddus i glywed fy marn ac yn gwrando ar fy mhryderon. | 66% | 22% | 10% | 2% | |
| Mae safonau uchel o ymddygiad yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin. | 60% | 36% | 2% | 1% | |
| Mae'r ysgol yn ymdrin ag unrhyw faterion o fwlian yn effeithiol. (gadewch yn wag os nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i chi) | 51% | 19% | 19% | 11% | |
| Mae'r ysgol yn groesawgar ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymglymu mewn agweddau o fywyd ysgol. | 77% | 22% | 1% | | |
| Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli yn dda. | 77% | 21% | 1% | 1% | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fyw bywyd iach. | 70% | 26% | 4% | | |
| Mae fy mhlentyn yn cymdeithasu yn dda gyda phlant o gefndiroedd gwahanol. | 76% | 23% | 1% | | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i wneud cyfraniad positif yn y gymuned. | 60% | 30% | 9% | 2% | |
| Byddwn yn argymell Ysgol Gymraeg Pontybrenin i eraill. | 76% | 21% | 3% | | |

***i'r canran agosaf**

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Diolch i bawb a ymatebodd i holiaduron tymor yr haf. Er mwyn i'r ysgol barhau i wella, mae angen i holl aelodau cymuned yr ysgol rannu eu barn am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, ac efallai'n bwysicach fyth, pa feysydd y mae angen i ni eu gwella wrth symud ymlaen. Derbynion ni 141 o holiaduron wedi'u cwblhau, sef yr ymateb gorau erioed gan rieni. Os na lwyddoch chi gwblhau un y tro hwn, gofynnir yn garedig i chi gymryd ychydig o funudau i gwblhau holiaduron y dyfodol a anfonir atoch bob tymor, yn gofyn am eich barn am amrywiaeth o faterion.
Yn ogystal â'r holiadur tymhorol, mae cyfle hefyd i rannu eich barn fel rhan o fforwm rieni tymhorol yr ysgol. Caiff manylion pellach am gyfarfodydd y tymor hwn eu danfon allan yn yr wythnosau nesaf.

Unwaith eto eleni, ymfalchïwn yng nghanlyniadau yr holiaduron. Dyma i chi grynodeb o rai o'r prif ganfyddiadau:

## Meysydd Llwyddiant (y sgoriau uchaf)

- **Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi am ddigwyddiadau a gweithgareddau ysgol**
  Rydym yn falch iawn bod 99% ohonoch yn teimlo bod yr ysgol yn cyfathrebu â chi'n effeithiol am ddigwyddiadau a gweithgareddau a dengys hyn fod yr ysgol yn eich hysbysu chi drwy Parentmail, gwefan yr ysgol, Trydar a diweddariadau y calendr wythnosol.

- **Mae fy mhlentyn yn cael ei addysgu'n dda yn yr ysgol**
  Rydym wrth ein bodd bod 99% ohonoch chi wedi nodi bod eich plentyn yn cael ei addysgu'n dda yn yr ysgol. Rydym yn ffodus iawn yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin i gael staff dysgu ac addysgu sy'n teimlo'n angerddol am addysgu a chefnogi eich plant, ac rydym yn ymfalchïo'n yn y ffaith ein bod ni'n cynhyrchu plant dwyieithog sydd â'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd.

- **Mae'r ysgol yn groesawgar ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymglymu mewn agweddau o fywyd ysgol.**
  Clywir y term 'polisi drws agored' yn aml yng nghyd-destun ysgolion, ond teimlwn yn gryf fod hyn yn wir yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin, gyda'r ysgol yn croesawu rhieni ac aelodau eraill o 'deulu YGG Pontybrenin', tra'n eu hannog i rannu eu meddyliau â staff. Cytunodd 99% ohonoch chi fod hyn yn gryfder.

- **Mae fy mhlentyn yn cymdeithasu yn dda gyda phlant o gefndiroedd gwahanol.**
  Dydy hi'n fawr o syndod bod 99% ohonoch chi yn teimlo bod eich plentyn yn cymdeithasu yn dda gyda phlant o gefndiroedd gwahanol gan fod disgyblion gofalgar iawn gyda ni yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin sydd yn barchus o

eraill, beth bynnag eu hethnigedd, crefydd, cefndir economaidd gymdeithasol ayyb.

**Meysydd i'w datblygu (y meysydd a sgoriodd isaf)**

- **Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi ynghylch cynnydd fy mhlentyn**
  Er bod 91% ohonoch chi o’r farn bod yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â chi ynghylch cynnydd eich plentyn, mae 4% yn teimlo bod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Yn ogystal â'r nosweithiau rhieni tymhorol, dechreuon ni ein diwrnodau ‘Dathlu fy Ngwaith / Sgiliau’ llynedd, gyda rhieni yn derbyn gwahoddiad i’r ysgol i weld gwaith eu plant ac i rannu yn eu llwyddiannau. Tra bod yr adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnig crynodeb o gynnydd a chyrhaeddiad ym mhob agwedd o’r cwricwlwm, mae rhieni hefyd yn derbyn adroddiad interim ym mis Chwefror / Mawrth sydd yn amlinellu targedau a chynnydd disgyblion.

- **Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi ynghylch sut i gefnogi dysgu fy mhlentyn**
  Roedd 4% o rieni yn anghytuno â'r datganiad bod yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â hwy ynghylch sut i gefnogi dysgu eu plant. Fel ysgol, credwn yn gryf fod angen i'r ysgol a'r cartref weithio'n agos gyda'i gilydd i gynyddu potensial ein plant i'r eithaf, ac rydym wedi ceisio gwneud hynny eleni drwy gynnwys rhieni mewn digwyddiadau niferus. Cynhaliwyd nosweithiau agored amrywiol, gan gynnwys noson lythrennedd & rhifedd yn ogystal â noson gymhwysedd digidol. Mae gwefan yr ysgol hefyd yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau y gall rhieni eu defnyddio i gefnogi eu plant. Mae athrawon hefyd yn manteisio ar y nosweithiau rhieni tymhorol i rannu targedau disgyblion ac i awgrymu gwahanol ffyrdd o gefnogi’r dysgu.

- **Mae fy mhlentyn yn derbyn nifer addas o ddarnau gwaith cartref am ei oedran.**
  Er bod 86% o rieni o’r farn bod eu plant nhw yn derbyn nifer addas o ddarnau gwaith cartref am eu hoedran, roedd 6% yn anghytuno gyda hyn. Y broblem gyda gwaith cartref yw bod llawer o rieni o’r farn bod gormod yn cael ei ddosbarthu ac eraill yn teimlo y dylai eu plant dderbyn mwy o waith cartref. Mae hwn yn bwnc sydd ar yr agenda i’w drafod yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol ym mis Tachwedd a hoffwn glywed eich barn chi, felly testun holiadur y tymor hwn fydd gwaith cartref. Gofynnir i chi wneud pob ymdrech i rannu eich barn trwy gwblhau’r holiadur.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

- **Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio**
  O'r rhieni hynny ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 11% o'r farn nad yw'r ysgol yn ymdrin â bwlio yn effeithiol. Mae bwlio'n fater sy'n derbyn sylw blaenllaw mewn gwasanaethau ysgol gyfan ac mewn gwersi ABCh, a sefydlodd y cyngor ysgol wasanaeth gwrth-fwlio ar-lein llynedd gyda'r nod o ddarparu dull ychwanegol i ddisgyblion o rannu eu pryderon. Ystyrir pob achos o fwlio o ddifrif a hysbysir rhieni'r ddwy ochr o'r cychwyn cyntaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y materion hyn eu datrys, er boddhad y naill ochr a'r llall.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon rydych wedi'u codi yn yr holiaduron hyn, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn sylwi ar fwy o welliannau i'r ysgol eleni. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach. Er ein bod yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod, nid ydym yn berffaith, ond gyda'ch cefnogaeth a'ch mewnbwn parhaus, gallwn barhau i ddatblygu'r ysgol gyda'n gilydd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth